
# TAITH CEFNAMWLCH

Hyd: **10.6km - 6.6m**





**Cyfarwyddiadau**

- Gadael maes parcio'r 'Lion' (SH 236367) ac i'r ffordd fawr.
- Croesi'r B4417 gyferbyn â'r 'Lion'. Cerdded i gyfeiriad Cefnamwlch ac ymlaen heibio Giat Wen (SH 240360). *(* Llwybr ar gau – Parhau ymlaen ar hyd y ffordd. Heibio Pwllcoed a beudai ar y dde. Yn y gornel nesaf mynd ymlaen ar lwybr ar draws y cae.)*
- Troi i'r dde ac ar hyd llwybr sy'n croesi caeau - tua'r dehau. Bydd Coed Pwllcoed yn eich wynebu. Cerdded tua'u pen chwith a thros gamfa i'r ffordd ar gornel.
- Yn syth i'r dde i lwybr arall (SH 2412350) a cherdded i lawr at Goed Caerdydd. Mynd dros gamfa a bydd yn llwybr yn troi i'r chwith trwy'r coed gan ddilyn afonig.(SH 238345).
- Dilyn ffordd gul i'r dde ac i fyny'r allt heibio safle odro Cefnamwlch (SH 239343).
- Daw'r ffordd hon allan ar ffordd Sarn Mellteyrn i Feudy Bigyn a Thudweiliog. Gwêl 'Coeten Arthur' isod.
- Dal i'r chwith i gyfeiriad Sarn Meillteyrn. Dilyn y ffordd honno a throi i'r dde i lwybr ger Llidiart Gwyn (SH 236334).
- Cerdded i fyny'r llethr gan gadw'r wal ar eich llaw dde ac i fyny at Pen Foel. Dringo dros gamfa ar gwr yr ardd a chamfa arall i fynd i gyfeiriad y goedwig.
- Mynd trwy giat fochyn yn y wal a dilyn llwybr trwy'r goedwig. Mynd heibio Tan y Foel, Parc Bod Badrig a Phig y Parc. Mae'r llwybr yn dilyn godre Mynydd Cefnamwlch ac yn dod allan i'r B4417 (SH 220337).
- Troi i'r chwith a dilyn lwybr i'r dde dros camfa a daw allan ger Eglwys Penllech (SH 219344). *(* Llwybr ar Gau – Cerdded ar hyd y B4417 gyda godre Mynydd Cefnamwlch a thoi i'r chwith, tua'r môr at Eglwys Penllech ac ymlaen i Ffordd yr Arfordir.)*
- Ymlaen i'r gogledd-orllewin heibio Eglwys Penllech a Phlas ym Mhenllech. Dal i'r chwith ac i lawr i gyfeiriad y môr nes dod i Ffordd yr Arfordir (SH 215350)
- Cerdded i'r dde ar hyd y ffordd honno ac ymlaen hebio Capel Penllech (SH 220356) nes dod at lwybr cyhoeddus sy'n mynd heibio Yr Aifft (SH 224358).
- Croesi caeau i'r chwith a dod allan i'r ffordd fawr ger Penlon Caenewydd. Mynd i'r dde yn y fan honno ac at y gyffordd gyda B4417 (SH 230361).
- Dal i'r chwith ar y B4417 tuag at Dudweiliog ond troi i'r chwith ger Siop Isaf (SH 234364).
- Mae'r lôn drol a'r llwybr heibio'r Felin yn mynd i fyny heibio'r Ysgol ac i faes parcio'r 'Lion'

*Nodyn: O dro i dro gall llwybr fod ar gau. Cynigir dewis arall i'r daith gyda *.*

*(** Coeten Arthur - Os ewch i'n dde am Feudy Bigyn a Thudeiliog fe ddowch at odre Mynydd Cefnamwlch lle gwelir cromlech yn y cae ar eich chwith. Dyma Goeten Arthur (SH 229345))*

**Pethau i'w gweld ar y daith:**



### 2 Cefnamlwch

I'r de o'r pentref mae plasty Cefnamwlch sy'n eiddo i'r teulu Wynne-Finch. Mae ganddynt stad helaeth gyda nifer o dai'r pentref a ffermydd yr ardal yn eiddo iddynt. Buddsoddwyd yn helaeth mewn buches odro.

Ceir hanesion difyr am Gefnamwlch yn narlith Ioan Mai Evans (Darlith y Bont, 1990) 'Llŷn Drwy Ffenestri Cefnamwlch'.



### 3 Coed Caerdydd

Roedd modd cerdded o blasty Cefnamwlch ar hyd y llwybr trwy Goed Caerdydd rai canrifoedd yn ôl.


Ar hyd hwn, meddir, y cerddai Madam Griffith i gyfarfod Howell Harris yn Nant yr Hen Lyn Uchaf - lle cynhelid seiadau gan y Methodistiaid yng nghanol y C18.



## 4 Eglwys Penllech

Wedi ei chysegru i'r Forwyn Fair. Tybed ai Belyn oedd ei sant gwreiddiol gan fod Tyddyn Belyn gerllaw? Adnewyddwyd hi yn 1840.

Mae cilbost dwyreiniol adwy cadlas fferm Plas ym Mhenllech yn faen hir gyda siâp cwpanau wedi eu suddo ynddo.



## 5 Parc Bod Badrig

Fferm gyda chysylltiad amlwg efo Sant Padrig gan fod Ffynnon Badrig ar ei thir.



## 6 Nyth y Gigfran

Cynhelid seiadau yma yn y G18 a galwai Howell Harris yma pan ddeuai ar deithiau i Lyn. Yma y cyfarfyddai Madam Griffith, Cefnamwlch ag ef.

Pan âi hi i gyfarfod â Howell Harris arferai ei gwr, William Griffith ddweud fod y 'gigfran wedi mynd ar ei nyth'! Gelwid y lle felly yn Nyth y Gigfran.



## 7 Tyddyn Belyn

Dywedir y bu eglwys yn yr ardal hon yn yr hen amser wedi ei sefydlu gan Belyn Sant.